CYMUNEDAU CRYF Â DYFODOL DISGLAIR

Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU

VALE of GLAMORGAN
BRO MORGANNWG

# Cronfa Grant Cymunedau Cryf
# Nodiadau Canllaw 2025-26

**Cyn llenwi ffurflen gais, <u>rhaid</u> i ymgeiswyr gysylltu â thîm Cronfa Grant Cymunedau Cryf i drafod cymhwystra eich syniad am brosiect.**
**E-bost:** scgfapplications@valeofglamorgan.gov.uk

## Beth yw'r Gronfa Grant Cymunedau Cryf?

Bydd y Gronfa Grant Cymunedau Cryf yn cynnig grantiau i grwpiau cymunedol, sefydliadau gwirfoddol, cynghorau tref a chynghorau cymuned tuag at gostau mentrau ym Mro Morgannwg sy'n helpu i ategu gweledigaeth y Cyngor o "gymunedau cryf â dyfodol disglair".

**Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw hanner dydd ar 30 Ebrill 2025. Rhaid cwblhau prosiectau erbyn 31 Mawrth 2026.**

Mae'n bleser gennym eich hysbysu bod y rownd hon o Gronfa Grant Cymunedau Cryf yn cael ei hariannu gan Lywodraeth y DU drwy Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU. O'r herwydd, bydd gofynion penodol yn eich cais i ddangos sut mae eich prosiect yn cyd-fynd â themâu ac is-themâu'r Gronfa Ffyniant Gyffredin, ac os bydd yn llwyddiannus, bydd gofyn i brosiectau ddarparu rhywfaint o dystiolaeth benodol ynghylch eu cynnyrch a'u canlyniadau. Fel bob amser, bydd y tîm Cymunedau Cryf ar gael i'ch helpu i lywio'r rhain.

**Nod y gronfa yw:**

1. Gwella gwydnwch sefydliadau/grwpiau neu eu gweithgareddau drwy ariannu gweithgareddau sy'n ychwanegu gwerth at eu gwaith presennol a lleihau eu dibyniaeth ar arian grant yn y dyfodol;

2. Cynnig arian cychwynnol tuag at fentrau sy'n dangos eu bod yn gynaliadwy yn yr hirdymor;



Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English

3. Gwneud gwaith ymgynghori, dichonoldeb, dylunio a gwaith arbenigol arall i lunio cynigion ar gyfer gweithgareddau a cheisiadau am gyllid yn y dyfodol;

4. Talu costau cyfalaf cynlluniau drwy brynu peiriannau, offer neu asedau eraill neu

5. Ymgymryd â gwaith a fyddai'n galluogi i wasanaethau gael eu darparu, er enghraifft, drwy gynyddu'r potensial i gynhyrchu incwm a dangos beth fyddai buddsoddiad o'r fath yn ei olygu o ran arbedion a/neu fuddion cymunedol.

6. Annog prosiectau sy'n cynnwys ffyrdd arloesol o fynd i'r afael â newid hinsawdd.

7. Annog prosiectau sy'n helpu cymunedau'r Fro i ymdopi â chostau byw cynyddol.

8. Lle bo'n berthnasol, cefnogi prosiectau sy'n ymwneud â 'chreu lleoedd' a'r anghenion cysylltiedig. Gallwch ddod o hyd i wybodaeth am greu lleoedd yma.

## Sut mae gwneud cais?

Rhaid i ymgeiswyr lenwi ffurflen gais Grant Cymunedau Cryf a'r tabl Allbynnau a Chanlyniadau. Rhaid i unrhyw un sy'n ystyried gwneud cais gysylltu â Thîm Cymunedau Cryf y Cyngor **cyn** llenwi ffurflen gais, fel y gellir asesu cymhwystra yn gynnar.

E-bostiwch scgfapplications@valeofglamorgan.gov.uk gyda pharagraff byr yn amlinellu eich prosiect, fel y gallwn eich cynghori ymhellach.

Os bernir bod eich prosiect yn gymwys, rhoddir ffurflen gais i chi. Efallai y bydd angen gwybodaeth ychwanegol i gefnogi eich cais ar ôl arfarnu, yn enwedig i ddangos tystiolaeth o arian cyfatebol.

Ni fydd ceisiadau anghyflawn neu geisiadau a gyflwynir heb y ddogfennaeth ategol gywir yn cael eu hystyried.

## Pwy sy'n gallu gwneud cais?

Mae'r categorïau canlynol o sefydliadau yn gymwys i wneud cais:

- Grwpiau cymunedol a mudiadau gwirfoddol
- Cynghorau Tref a Chymuned, yn annibynnol neu mewn partneriaeth â grŵp cymunedol lle nad oes statws cyfreithiol gan y grŵp cymunedol hwnnw.
- Consortia o'r uchod, gan gynnwys y rhai hynny sydd wedi sefydlu trefniadau llywodraethu ffurfiol megis mentrau cymdeithasol.

## Am faint o arian y gallwn wneud cais?

**Croesewir ceisiadau am grantiau rhwng** £5,001 a £15,000. **Uchafswm y grant a fydd yn cael ei gynnig tuag at unrhyw brosiect unigol fydd £15,000**. Dylid cyfeirio ceisiadau ar gyfer prosiectau o hyd at £5,000 at enquiries@gvs.cymru

**Cyfanswm y gyllideb sydd ar gael ar gyfer cronfa grant 2025-2026 yw £180,000**

Mae gwerth am arian yn ffactor asesu allweddol ac mae'r galw yn debygol o fod yn uchel. Rhaid i bob cais fod ag arian cyfatebol gwerth o leiaf 20% o gyfanswm cost y prosiect. Beth bynnag yw canran yr arian cyfatebol, uchafswm y gyllideb a ddyfernir gan y grant hwn fydd £15,000 fesul prosiect.

Mae enghreifftiau o'r polisi hwn wedi'u cynnwys yn yr astudiaethau achos yn yr adran "Yr hyn y gallwn ei ariannu" isod. Mae'n rhaid i'ch cais gynnwys holl fanylion ariannol y prosiect, yn enwedig manylion yr arian cyfatebol y bydd angen iddo fod yn ei le adeg gwneud y cais.

Peidiwch â chael eich digalonni gan y ffurflen gais – mae'r Cyngor yma i'ch cefnogi drwy'r broses ymgeisio. Gobeithiwn y bydd hyn o gymorth i chi yn y dyfodol os gwnewch gais am gyllid arall gan gyrff eraill.

Dylai faint o wybodaeth yr ydym yn disgwyl i chi ei rhoi ar y ffurflen hon fod yn gymesur â'r swm o arian yr ydych yn gwneud cais amdano. Mae angen i ni wybod beth yn union rydych yn bwriadu gwario'r arian grant arno, yr hyn rydych yn gobeithio ei gyflawni drwy eich prosiect, pwy fydd yn elwa a sut y bydd hyn yn eich helpu yn y tymor hwy. Gallwch gysylltu â ni ar unrhyw adeg i gael cymorth i lenwi'ch cais ac rydym yn eich annog i gyflwyno drafft cynnar i ni fel y gallwn roi adborth, os bydd angen.

## Beth y gellir ei ariannu?

Dyma rai enghreifftiau o bethau y gellid eu cefnogi. (Nid yw hon yn rhestr gyflawn).

- Prosiectau sy'n gwella gallu'r ymgeisydd i gynhyrchu incwm.
- Prosiectau sy'n cefnogi'r ymgeisydd i dderbyn ased a'i gynnal.
- Astudiaethau dichonoldeb, mapio cymunedol a dyluniad manwl i baratoi ar gyfer ceisiadau am gyllid
- Prynu a llogi offer, peiriannau neu asedau eraill.
- Costau marchnata a chyfieithu
- Gwaith cyfalaf, gan gynnwys adnewyddu adeiladau a mannau agored, neu brynu offer storio. Sylwer efallai y byddai angen caniatâd cynllunio ar gyfer hyn.
- Buddsoddiadau sy'n lleihau costau rhedeg hirdymor y sefydliad sy'n ymgeisio
- Buddsoddiadau sy'n gwella effeithlonrwydd y sefydliad sy'n gwneud cais
- Gweithgareddau sy'n rhannu adnoddau ar draws sawl sefydliad er mwyn arbed costau.
- Costau ymchwil ac ymgynghori eraill
- Cost staff, dim ond lle mae'r gost yn ymwneud â'r prosiect.
- Hyfforddiant
- Teithio a chynhaliaeth sy'n gysylltiedig â'r prosiect, gan gynnwys costau gwirfoddolwyr.
- TAW nad oes modd ei hadennill
- Llogi lleoliadau

## Beth na ellir ei ariannu?

Dyma enghreifftiau o bethau na roddir arian ar eu cyfer fel rheol:



Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English

(Nid yw hon yn rhestr gyflawn).

- Costau rhedeg o ddydd i ddydd (e.e. staff craidd, biliau'r adeilad, treth gyngor, rhent ac yswiriant)
- Projectau y byddai’n fwy priodol iddynt gael cymorth gan gynlluniau eraill y Cyngor e.e. cronfa digwyddiadau
- Projectau nad ydynt yn cyd-fynd â Chynllun Corfforaethol y Cyngor
- Prosiectau sydd heb ddangos yr angen.
- Digwyddiadau codi arian untro
- Prosiectau sy’n weithredol neu’n cychwyn cyn i ni gadarnhau ein grant.
- Eitemau sydd o fudd i unigolion yn bennaf (er enghraifft offer na gaiff ei rannu)
- Gweithgareddau crefyddol neu wleidyddol, gan gynnwys grwpiau ymgyrchu.
- Lletygarwch e.e. prynu alcohol.
- Gwaith trwsio a chynnal arferol – e.e. gwasanaethu boeler, torri gwair.
- Prosiectau sydd ddim yn digwydd ym Mro Morgannwg
- TAW y mae modd ei adfer

Efallai y bydd yr enghreifftiau canlynol yn eich helpu i ystyried cymhwystra eich prosiect. Sylwch, fodd bynnag, nad yw prosiectau sy'n para mwy na blwyddyn bellach yn gymwys i gael cymorth. **Rhaid cwblhau pob prosiect erbyn 31 Mawrth 2026.** Cyfrifwch y costau yn ôl union hyd y prosiect.

## Yr hyn y byddem yn ei gefnogi: Astudiaeth Achos 1

### Y Gegin Gymunedol

Mae cymuned yn nodi'r angen am glwb cinio ar ôl siarad â defnyddwyr y ganolfan gymunedol a thrigolion eraill. Gellid defnyddio'r gegin hon ar gyfer priodasau a digwyddiadau eraill hefyd, gan wneud y cyfleuster yn fwy cynaliadwy. Nid oes cegin o safon fasnachol yn y Neuadd. Gellid defnyddio cyllid i brynu offer a gosod y gegin. Gallai'r gronfa hefyd gefnogi hyfforddi gwirfoddolwyr a marchnata’r clwb ei hun. Gellid hefyd rhoi cymorth ar gyfer marchnata'r gegin sydd newydd ei gosod. Byddai'r clwb cinio yn talu am y gost y gwaith ac yn cynhyrchu incwm ychwanegol drwy godi tâl priodol a fyddai'n caniatáu buddsoddi mewn offer newydd yn y dyfodol.

| **Enghraifft o gostau cymwys** | |
|---|---|
| Gosod cegin newydd ac offer arall yn y ganolfan gymunedol | £9,000 |
| Cydlynydd prosiect / gwirfoddolwyr (rhan amser) | £3,200 |
| Hyfforddi ac ardystio gwirfoddolwyr | £1,450 |
| Costau teithio i'r gwirfoddolwyr | £190 |
| Deunyddiau marchnata (‘pop ups’, taflenni a hysbyseb yn y wasg leol) | £560 |
| Datblygu bwydlen | £380 |
| **Cyfanswm cost y prosiect** | **£14,780** |
| **Arian cyfatebol o 20%** | **£2,956** |
| **Swm y mae’r prosiect yn gwneud cais amdano** | **£11,824** |

Mae gan y prosiect gyllid arall gwerth 20% o gyfanswm costau'r prosiect, felly gwneir cais am **£11,824** o’r CGCC.

**Yr hyn na fyddem yn ei gefnogi:**

Mae cymuned yn meddwl y bydd clwb cinio yn gweithio ac eisiau talu cwmni arlwyo i ddod i mewn a darparu'r gwasanaeth hwn gan ddefnyddio'r cyfleuster presennol. Mae eisiau talu costau llogi ystafelloedd i’w hun a thalu



Mae’r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English

staff achlysurol i gefnogi'r gweithgaredd. Mae'n cynnig codi tâl bychan am ginio neu ei gynnig am ddim sy'n golygu y byddai'r grant yn cymorthdalu costau rhedeg y gwasanaeth hwn.

## Yr hyn y byddem yn ei gefnogi: Astudiaeth Achos 2

### Prosiectau hyfforddi a chyflogi defnyddwyr gwasanaeth – arlwyo

Mae sefydliad cymunedol yn nodi cyfleoedd hyfforddi i ddefnyddwyr ei wasanaeth ar ffurf sefydlu caffi cymunedol. Gellid defnyddio cyllid i ddatblygu'r caffi, darparu cyllid cychwynnol ar gyfer rhent a chostau staffio. Byddai gwirfoddolwyr yn ennill sgiliau gwerthfawr ac yna gobeithio'n symud i gyflogaeth. Byddai'r caffi hefyd wedi datblygu sylfaen cwsmeriaid ac incwm rheolaidd dros y cyfnod hwn i'w alluogi i dalu'r costau yn y tymor hwy.

| **Enghraifft o gostau cymwys** | |
|---|---|
| Gosod cegin newydd | £15,600 |
| Rhentu'r gofod | £2,000 |
| Cydlynydd Prosiect / Gwirfoddolwyr | £8,000 |
| Costau teithio i'r gwirfoddolwyr | £1,200 |
| Deunyddiau marchnata ('pop ups', taflenni a 2 hysbyseb yn y wasg leol) | £1,500 |
| **Cyfanswm cost y prosiect** | **£28,300** |
| **Arian cyfatebol o 47%** | **£13,300** |
| **Swm y mae'r prosiect yn gwneud cais amdano** | **£15,000** |

**Beth bynnag yw cyfanswm cost y prosiect, bydd unrhyw grant a gynigir yn cael ei gyfyngu i uchafswm o £15,000. Felly byddai angen arian cyfatebol o £13,300 ar y prosiect hwn, sef arian cyfatebol o 47%. Byddai angen sicrhau'r cyllid ychwanegol hwn a rhoi tystiolaeth ohono yng nghais y prosiect.**

**Yr hyn na fyddem yn ei gefnogi**
Cost swyddog hyfforddi i roi hyfforddiant sgiliau arlwyo i 36 o gleientiaid mewn amgylchedd ystafell ddosbarth. Ni ellid nodi unrhyw incwm tymor hir drwy'r dull hwn. Bydd y prosiect yn dod i ben ar ôl tair blynedd.

## Yr hyn y byddem yn ei gefnogi: Astudiaeth Achos 3

### Cymryd asedau – Clwb chwaraeon

Mae lawnt clwb bowlio, sy'n cymryd ased sy'n eiddo i'r Cyngor ar hyn o bryd, yn cael ei thorri gan gontractwyr. Ni fydd yn gallu fforddio gwneud hyn unwaith y bydd yn cymryd yr ased. Mae'n gweithio gyda dau glwb arall cyfgos i weld sut y gallant leihau costau torri'r gwair a phaentio. Penderfynwyd y byddai prynu peiriant torri gwair a threlar i'w gludo yn eu helpu i leihau costau. Mae'r clwb yn meddwl efallai y bydd yn gallu defnyddio'r peiriant torri gwair a'r gwirfoddolwyr i gynnig gwasanaethau mewn clybiau eraill ar draws y sir. Byddai talu am y gwasanaeth hwn yn helpu i dalu costau rhedeg.

Maen nhw hefyd yn meddwl y gallai'r clwb gael ei rentu ar gyfer cynadleddau a digwyddiadau felly maen nhw wedi gofyn am rywfaint o offer cynadledda.



Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English

| **Enghraifft o gostau cymwys** | |
|---|---|
| Peiriant torri gwair arbenigol yr eisteddir arno | £8,000 |
| Trelar a 3 bachyn i gludo rhwng clybiau | £1,800 |
| Hyfforddiant iechyd a diogelwch | £600 |
| 3 sied diogelwch a chloeon | £1,500 |
| Taflunydd, sgrin a stondinau siart droi | £1,000 |
| **Cyfanswm cost y prosiect** | **£12,900** |
| **Arian cyfatebol o 20%** | **£2,580** |
| **Swm y mae'r prosiect yn gwneud cais amdano** | **£10,320** |

**Yr hyn na fyddem yn ei gefnogi:**
Cost torri gwair gan gontractwr garddio
Benthyg peiriant torri gwair ar brydles (beth sy'n digwydd ar ddiwedd y cyllid hwn?)
Costau gwasanaethu ac atgyweirio parhaus y peiriant torri gwair

## A ddylwn i gynnwys TAW yn fy nghais?

Dim ond os na allwch ei hawlio yn ôl gan Gyllid a Thollau Ei Fawrhydi y cewch gynnwys TAW yn y cais. Mae ymgeiswyr yn gyfrifol am geisio cyngor ar TAW. Yn anffodus, ni all y Cyngor gynnig hyn.

## Am ba hyd y mae grant yn para?

Os bydd eich cais yn llwyddiannus, bydd eich llythyr cynnig cyllid yn nodi dyddiad terfyn ar gyfer cwblhau'r prosiect, a fydd yn ddim hwyrach na 31 Mawrth 2026. Bydd gofyn i chi hefyd adrodd ar gynnydd eich prosiect o bryd i'w gilydd yn unol â thelerau ac amodau eich cynnig grant.

## Sut caiff y grant ei dalu?

Bydd y grant yn cael ei dalu yn unol â'r telerau ac amodau yn y llythyr ariannu. Fel arfer, bydd y grant yn cael ei dalu'n ôl-weithredol ac yn amodol ar gyflwyno pob anfoneb/derbynneb i'r Cyngor. Mewn amgylchiadau eithriadol lle gallai hyn achosi anawsterau gwirioneddol i sefydliadau bach, bydd taliadau fesul cam yn cael eu hystyried. Y peth gorau i'w wneud yw siarad â ni am eich sefyllfa ariannol a byddwn yn gwneud ein gorau i weithio allan sut i dalu'r grant. Bydd eich llythyr cyllido yn nodi swm y grant fel canran o gyfanswm cost y prosiect. Ni ellir dyrannu taliadau Cronfa Grant Cymunedau Cryf ar gyfer elfennau penodol o'r prosiect.

## Beth yw'r amserlen ymgeisio?

Bydd y cyfnod ymgeisio am y cyllid grant yn cael ei hysbysebu ar wefan Cyngor Bro Morgannwg. Bydd yn rhaid i'ch cais fod yn gyflawn ynghyd â'r holl atodiadau a chael ei gyflwyno drwy e-bost erbyn hanner dydd ar y dyddiad cau. Gallwch gyflwyno eich cais ar unrhyw adeg yn ystod y cyfnod ymgeisio. Cadwch mewn cysylltiad â ni ac mae croeso i chi ofyn unrhyw gwestiynau drwy anfon e-bost at scgfapplications@valeofglamorgan.gov.uk

Os yw eich cais yn llwyddiannus, cewch lythyr ariannu a dogfennau cysylltiedig i'w llofnodi a’u dychwelyd yn electronig. Bydd y pecyn yn esbonio unrhyw amodau, y broses gymeradwyo a sut i gyflwyno cais am grant. Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau ar y adeg yma, byddwn yn hapus i’ch helpu.

| | |
|---|---|
| **1 Ebrill 2025** | Ceisiadau’n agor |
| **30 Ebrill, 2025** | Ceisiadau’n cau |
| **Mehefin 2025** | Neges e-bost i hysbysu os yn llwyddiannus |
| **Mehefin 2025** | Llythyr dyfarnu |
| **Mehefin 2025** | Dychwelyd y llythyr dyfarnu a gofynion caffael |
| **1 Gorffennaf 2025** | Dyddiad dechrau’r prosiect |
| **15 Medi 2025** | Dyddiad yr hawliad cyntaf |
| **15 Ionawr 2026** | Dyddiad yr ail hawliad |
| **31 Mawrth 2026** | Dyddiad gorffen y prosiect ac adroddiadau terfynol |

## Allbynnau a Deilliannau

Rhaid i bob prosiect a ariennir gan y Gronfa Grant Cymunedau Cryf alinio ag un neu fwy o'r is-themâu a restrir yng ngholofnau B a C yn y daenlen Allbynnau a Deilliannau. Rhaid i brosiectau gyflwyno'r dystiolaeth angenrheidiol i ddangos eu bod wedi cyflawni'r rhain.

## Pwy sy’n gwneud y penderfyniad a beth yw’r meini prawf asesu?

Bydd y Swyddog Grantiau perthnasol yng Nghyngor Bro Morgannwg yn archwilio’ch cais ac yn trafod unrhyw ymholiadau gyda chi.

Bydd ceisiadau am grantiau rhwng £5,001 a £15,000 yn cael eu cyflwyno i’w hystyried gan banel gwerthuso grantiau. Bydd y panel yn cynnwys:

- Arweinydd y Cyngor
- Yr Aelod Cabinet sydd â chyfrifoldeb dros Adfywio
- Un cynrychiolydd o Gyngor Tref
- Un cynrychiolydd o Gyngor Cymuned
- Un cynrychiolydd o bob un o’r rhoddwyr cyllid trydydd parti cylchol
- Un cynrychiolydd o Wasanaethau Gwirfoddol Morgannwg
- Un cynrychiolydd o aelod-sefydliad y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
- Un cynrychiolydd o Sefydliad Waterloo

Gall y panel grantiau ddewis gosod amodau ar eich cynnig grant os yw’n llwyddiannus.  Byddwch wedyn yn cael eich hysbysu'n ysgrifenedig o'r penderfyniad ynghylch eich cais.

Bydd y panel yn asesu eich cais yn ôl y meini prawf canlynol:

| | Maen Prawf Blaenoriaeth | Sgôr |
|---|---|---|
| 1 | Cyd-fynd yn strategol â:<br>• Themâu ac is-themâu'r Gronfa Ffyniant Gyffredin<br>• Blaenoriaethau Cyngor y Fro (Cynllun Corfforaethol 2025-2030)<br>• Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 | 0 - 25 |
| 2 | Gwerth am arian, gan gynnwys cytuno i nifer gymesur o allbynnau a deilliannau ar gyfer swm y cyllid y gwneir cais amdano. | 0 - 25 |
| 3 | Ymrwymiad rhanddeiliaid wrth siapio a gweithredu'r project. | 0 - 25 |
| 4 | Gwerth ychwanegol a chynaliadwyedd | 0 - 25 |
| | **Cyfanswm** | **100** |

Rhaid i bob prosiect gyrraedd y sgôr basio o 70 i gael ei ystyried ar gyfer cyllid, gan gynnwys sgôr o 5 o leiaf fesul maen prawf.

## Deunydd Marchnata / Hyrwyddo

Mae eich cynnig grant yn amodol ar ddefnyddio logos y partneriaid ariannu ar gynnyrch marchnata / hyrwyddo cysylltiedig e.e. taflenni, gwefan, cyfryngau cymdeithasol, paneli dehongli. Mae yna ganllawiau penodol y bydd gofyn i chi eu dilyn yn hyn o beth, ac os bydd eich cais yn llwyddiannus, byddwn yn darparu'r rhain gyda'ch llythyr ariannu.

## A fydd angen i mi fonitro'r project?

Fel rhan o'ch cais byddwch wedi nodi'r hyn rydych yn gobeithio ei gyflawni gyda'ch cyllid. Gallai hyn fod y nifer o unigolion sy'n elwa neu'n derbyn hyfforddiant, neu nifer y projectau sy'n cael eu cwblhau. Byddwn yn gofyn i chi adrodd i ni ar gynnydd yn rheolaidd wrth gyflawni eich project ac ar ôl ei gwblhau. Dylech weithio gyda'n swyddogion fel rhan o'r broses ymgeisio hon i gytuno ar ganlyniadau eich project a'u nodi.

Rhaid rhoi gwybod i Gyngor Bro Morgannwg os ydych yn bwriadu newid defnydd neu werthu unrhyw adeilad neu offer a brynwyd, a adenillwyd neu a adnewyddwyd gan ddefnyddio'r grant hwn. Os na fydd hyn yn parhau i adlewyrchu amcanion y cynllun grant, gall CBM adennill oddi wrthych arian hyd at gyfanswm y grant a dalwyd mewn perthynas â'r project hwnnw am gyfnod o hyd at 5 mlynedd o daliad olaf y grant.

| Dyddiad gwaredu'r ased(au) | Swm i'w ad-dalu |
|---|---|
| O fewn blwyddyn | Arian i'w ad-dalu'n llawn |
| O fewn 2 flynedd | 80% o'r arian i'w ad-dalu |
| O fewn 3 flynedd | 60% o'r arian i'w ad-dalu |
| O fewn 4 flynedd | 40% o'r arian i'w ad-dalu |
| O fewn 5 mlynedd | 20% o'r arian i'w ad-dalu |
| Ar ôl 5 mlynedd | Dim arian i'w ad-dalu |

## Faint o ddyfynbrisiau y mae angen i mi eu cael?

Mae'r tabl tendro isod yn nodi'r weithdrefn y bydd angen i chi ei dilyn.

Dylai costau pob prosiect fod yn gywir ac yn seiliedig ar ffeithiau. Ni all prosiectau sy'n cael cyllid ddychwelyd a gofyn am arian ychwanegol am na chafodd eu prosiect ei gostio'n gywir. Felly, dylid costio prosiectau ar sail dyfynbrisiau neu brofiad diweddar. Bydd gofyn i brosiectau ddarparu tystiolaeth o'r gweithgaredd tendro canlynol cyn y bydd grantiau'n cael eu talu, ac rydym yn cynghori'n gryf bod hyn yn cael ei wneud cyn cyflwyno cais.

**Gwybodaeth Tendro**

| **Estimated value** | **Tender Action Required** |
|---|---|
| Up to £2,499 | Direct award |
| £2,500-£24,999 | 3 written quotes or prices sought from relevant suppliers of goods, works and/or services |
| Over £25,000 | Formal tender process |